

**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 24 CHWEFROR 2021**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: R.G.Jones, C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham,  
A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave a/ac  
L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, C.Griffiths, A.Evans, K.Jones, A.Jarrett, C.Furlow-Harris,  
R.Headon, C.Plowman, J.Woodman-Ralph a/ac S.Rees

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Nododd yr aelodau y dylai dyddiadau cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Cabinet ddarllen 2021 ac nid 2020 fel y nodwyd yn yr agenda.

Cymeradwyo cofnodion Cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2021, 13 Ionawr 2021, 22 Ionawr 2021 a 3 Chwefror 2021.

4. **BLAENRAGLEN WAITH 2021/22**

Nodi Blaenraglen Waith 2021/2022.

5. **CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2015-2019 - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019 - 2020**

Nododd yr Aelodau nad oedd yn ofynnol cynnal Asesiad Effaith Integredig fel y nodir yn yr adroddiad a ddisbarthwyd.

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-2019 ac Adroddiad Blynyddol 2019-2020.
2. Bod y Pennaeth Datblygu Dynol a Sefydliadol yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud unrhyw newidiadau y gallai fod eu hangen i'r Adroddiad Blynyddol cyn cyhoeddi, ar yr amod nad yw newidiadau o'r fath yn newid cynnwys y ddogfen a ystyriwyd gan y Cabinet yn sylweddol.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Bodloni'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

6. **ADRODDIAD CYNNYDD STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG, HYDREF 2019-MAWRTH 2020**

Nododd yr Aelodau nad oedd yn ofynnol cynnal Asesiad Effaith Integredig fel y nodir yn yr adroddiad a ddisbarthwyd.

**Penderfyniadau:**

1. Nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar gyfer y cyfnod Hydref 2019 – Mawrth 2020.
2. Cymeradwyo'r trefniadau adrodd newydd fel y nodir yn yr adroddiad a ddisbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Galluogi'r cyngor i fodloni gofynion statudol y Gymraeg.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

7. **CYNLLUN GWEITHREDU GWELLA LLYWODRAETHU  
CORFFORAETHOL - ADRODDIAD CYNNYDD**

**Penderfyniad:**

Bod y cynnydd hanner blwyddyn a wnaed ar y Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer 2020-2021 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Awst a 31 Ionawr 2021 fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddisbarthwyd yn cael ei nodi.

8. **SWYDDOG/BRYS/CAMAU GWEITHREDU**

**Penderfyniad:**

Bod y rhestr o Gamau Brys yn cael ei nodi.

**CADEIRYDD**